| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**YNYS MÔN 2026** |
| | **Cystadleuaeth 145 – Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D)** |
| | **Amser Gwely, Sion Emyr** |

‘Gwely rŵan, Sam’.
‘Pam?’
‘Achos mae’n naw o’r gloch’.
‘Pa byjamas, un gwyn neu un coch?’
‘Sam!’ meddai Mam yn groch,
‘Gwisga’r un coch’.
‘Mam, ble mae Tedi?’
‘Oooo! yn y gwely’.
‘Faint o’r gloch sydd eisiau codi?’
‘Dos i dy wely’r mwnci!’